Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Camau Cyntaf Gruffalos Den**

**Meithrinfa Gruffalos Den**
**Canolfan Adfywio Cymunedol Glyncoch**
**Clydach Close, Glyncoch**
**Pontypridd**
**CF37 3DA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Camau Cyntaf Gruffalos Den

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Camau Cyntaf i Ddysgu C.B.C |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Yr arolygiad cyntaf ers ailgofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac yn cael cyfleoedd da i wneud amrywiaeth o ddewisiadau. Maent yn chwarae'n rhydd ac yn mynegi eu hunain yn gadarnhaol. Mae'r plant yn cael hwyl yn chwarae gyda'u ffrindiau ac yn meithrin cydberthnasau agos â'r staff. Mae eu sgiliau annibyniaeth yn datblygu'n dda.

Mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gynnes ac yn ymatebol ac yn darparu gofal diogel a magwrus. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn sicrhau eu bod yn darparu gofal sy'n diwallu anghenion amrywiol y plant unigol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau ei fod mewn cyflwr da a bod gwiriadau diogelwch o'r adeilad yn cael eu cwblhau mewn modd amserol. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn drefnus a bod cyfarpar addas. Maent yn darparu amrywiaeth o adnoddau sy'n hyrwyddo datblygiad y plant ac yn eu hannog i chwarae mewn ffordd ddychmygus.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael lefel dda o ofal. Maent yn cefnogi datblygiad proffesiynol y staff ac yn buddsoddi ynddo, gan sicrhau bod pob aelod o'r staff yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi. Maent yn gwerthuso ac yn cynllunio gwelliannau lle bo angen er budd y plant sy'n cael gofal.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud penderfyniadau am y ffordd maent yn treulio eu hamser. Maent yn dilyn eu diddordebau eu hunain, gan symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd dysgu wrth iddynt archwilio'r gweithgareddau a'r adnoddau a gynigir. Mae'r plant yn gwybod y bydd staff yn gwrando ar eu ceisiadau ac yn ymateb iddynt. Er enghraifft, gofynnodd plentyn am fwy o flawd i'w ychwanegu at ei gymysgedd glŵp gan ei fod yn *“too runny”,* a rhoddwyd mwy o flawd iddo. Yn ystod amser byrbryd, maent yn dewis yr hyn yr hoffent ei fwyta a'i yfed yn hyderus.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus gan fod ganddynt gydberthnasau cadarn â'r staff, a bod eu hanghenion a'u teimladau yn cael eu cydnabod yn gyson. Gwelsom lawer o'r plant yn gofyn am faldod pan oeddent wedi cynhyrfu. Ymatebodd y staff drwy roi cysur a geiriau o sicrwydd iddynt. Mae'r plant yn cael eu canmol yn rheolaidd am eu hymdrechion a'u cyflawniadau, sy'n gwella eu hunan-barch. Er enghraifft, gwenodd un plentyn gan neidio i fyny ac i lawr yn llawn balchder pan gafodd ganmoliaeth am rannu adnoddau.

Mae'r plant yn gwneud ffrindiau agos ac yn rhyngweithio'n dda. Maent yn mwynhau cwmni ei gilydd ac yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd, gan wenu a chwerthin yn aml. Maent yn ddigon parod i rannu adnoddau ac i gymryd tro wrth chwarae. Er enghraifft, gwelsom y plant yn mwynhau arllwys tywod o gwpanau wrth iddynt drafod sut y byddent yn rhannu'r tywod er mwyn adeiladu castell ac yn cymryd eu tro i lenwi'r bwced. Mae'r plant hŷn yn ymddwyn yn dda ac yn ymateb yn gadarnhaol i anogaeth achlysurol gan y staff, gan ddangos y gallant reoli eu hymddygiad eu hunain.

Mae'r plant yn mwynhau'r chwarae a'r dysgu yn fawr iawn. Maent yn cael pleser a mwynhad o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ac yn dangos diddordeb mawr yn eu chwarae. Er enghraifft, gwelsom grŵp o blant yn yr ardal chwarae rôl wrth iddynt wneud brecwast iddynt eu hunain. Gwnaethant gynnwys y staff wrth chwarae gan ofyn *“What do you want for breakfast?”* a chan ofyn am help i dynnu'r caead oddi ar eu pot jam er mwyn gallu gwneud tost. Maent yn dangos cyffro wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau â phwyslais penodol fel 'cwningod cysglyd', gan wichian yn hapus wrth aros i ddeffro.

Ar y cyfan, mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn llwyddiannus. Gallant gael gafael ar yr adnoddau y maent am eu defnyddio i gefnogi eu diddordebau ac maent yn gofyn i'r staff am help os na allant ddod o hyd i rywbeth sydd ei angen arnynt. Yn ystod amser byrbryd, mae'r plant hŷn yn defnyddio gefelau i ddewis eu bwyd ac yn arllwys eu diodydd eu hunain.

Maent yn gofyn am help yn hyderus pan fydd ei angen arnynt. Er enghraifft, clywsom un o'r plant yn gofyn i aelod o'r staff ei helpu i wisgo ei ffedog er mwyn gallu chwarae yn y dŵr. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn helpu i dacluso a rhoi'r adnoddau i gadw.

| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldeb o ran cadw'r plant yn ddiogel. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am y gweithdrefnau diogelu i'w dilyn os bydd ganddynt bryderon ac am y ddyletswydd sydd arnynt i roi gwybod am bryderon o'r fath. Mae'r staff yn cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon, damweiniau a digwyddiadau sy'n ymwneud â'r plant ac yn hysbysu'r rhieni amdanynt. Mae'r staff yn sicrhau y caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel, ac y ceir caniatâd ysgrifenedig cyn rhoi unrhyw feddyginiaeth. Mae polisi meddyginiaeth ar waith sy'n cynnwys ffurflen i gofnodi unrhyw feddyginiaeth a gaiff ei rhoi i blentyn. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ffurflenni yn anghyflawn ac roedd gwybodaeth ar goll. Yn ogystal, nid yw'r ffurflen sydd ar gael i'r staff yn cynnwys adran i'r rhieni gydnabod pob achos lle cafodd meddyginiaeth ei rhoi i'w plentyn. Trafodwyd hyn yn ystod yr arolygiad a chadarnhaodd yr arweinwyr y byddent yn ystyried y mater ar unwaith. Maent yn sicrhau bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel drwy gynnal ymarferion tân rheolaidd. Mae'r staff yn hybu iechyd a hylendid yn y lleoliad. Er enghraifft, maent yn annog ac yn helpu'r plant i olchi eu dwylo cyn bwyta ac yn eu hannog i fwyta'n iach yn ystod amser byrbryd. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael cynnig profiadau chwarae ac ymarfer corff yn yr awyr agored. Caiff gwybodaeth am alergeddau a chyflyrau meddygol y plant ei rhannu ac mae ar gael i bob aelod o'r staff. Mae'r staff yn rhoi arferion hylendid da ar waith ac yn dilyn gweithdrefnau ar gyfer newid cewynnau yn briodol.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n gyson â'r plant mewn ffordd gynnes, amyneddgar a charedig iawn. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad y plant a'u hanghenion amrywiol, a sut y gall y rhain effeithio ar ymddygiad. Mae'r staff yn dangos dealltwriaeth dda o'r polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Maent yn eistedd gyda'r plant yn ystod amser byrbryd i'w hannog i ryngweithio mewn ffordd gadarnhaol ac i gynnig profiad cymdeithasol i'r plant. Maent yn siarad yn dyner ac yn defnyddio dulliau atgyfnerthu cadarnhaol gyda'r plant. Clywsom aelodau o'r staff yn dweud *“Well done, that’s amazing”* wrth i'r plant geisio arllwys eu diodydd eu hunain. Maent yn annog ymddygiad cadarnhaol a moesau ymysg y plant, gan eu hatgoffa'n rheolaidd i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch'. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iaith a rhyngweithio'r plant. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd chwarae blêr, clywsom y plant yn defnyddio'r un iaith gadarnhaol a chwrtais gan ddweud *“Can we have some more water please?”*

Mae'r staff yn cefnogi'r plant i ddysgu a datblygu yn effeithiol. Maent yn arsylwi ar y plant yn chwarae ac yn dysgu yn rheolaidd er mwyn olrhain eu cynnydd ac yn gweithio gyda'r rhieni i ddeall hoff bethau a chas bethau'r plant. Mae hyn yn helpu'r staff i gynllunio gweithgareddau er mwyn galluogi camau dysgu a datblygu nesaf y plant.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau a chyfleoedd ar gyfer chwarae rhydd ac yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau eu hunain, sy'n eu cymell i ddysgu. Maent yn hyrwyddo dysgu'r plant yn naturiol wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, clywsom aelod o'r staff yn sgwrsio gyda phlentyn am y cerbyd roedd yn chwarae ag ef, gan drafod pa mor gyflym roedd yn teithio a pha sŵn roedd yn ei wneud. Mae'r staff yn aml yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn ystod y dydd gan atgyfnerthu patrymau iaith fel *"Pwy wyt ti…?"* ac *"Wyt ti eisiau…?"* Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn ymwybodol iawn o'u hanghenion unigol. Maent yn addasu'r gofal a'r strategaethau ymddygiad y maent yn eu defnyddio yn naturiol er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer yr unigolyn. Caiff plant ag anghenion ychwanegol eu cefnogi'n dda, ac mae'r staff yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant.

## Yr Amgylchedd | Da

Mae'r lleoliad yn cael ei redeg o adeilad a rennir sy'n cael ei ddefnyddio gan ddefnyddwyr eraill. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu mynedfa ac allanfa ddiogel ac mae'r staff yn sicrhau mai dim ond mynediad awdurdodedig a ganiateir i'r lleoliad, gan gadw cofnodlyfr o unrhyw ymwelwyr. Mae'r plant yn mynd i mewn i'r lleoliad drwy giât ochr sy'n gadarn ac yn cael ei chloi. Mae'r staff yn cwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol er mwyn sicrhau y caiff peryglon eu nodi ac y caiff risgiau i'r plant eu dileu cymaint â phosibl. Mae amrywiaeth o asesiadau risg ar waith i gadw'r plant a'r staff yn ddiogel. Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad arolygu, nodwyd gennym nad oedd yr asesiad risg ar gyfer y safle, gan gynnwys yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored, yn gyfredol. Aeth y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ati ar unwaith i'w adolygu a'i ddiweddaru yn ystod yr arolygiad. Maent yn sicrhau bod yr adeilad mewn cyflwr da a bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal a'u hadolygu mewn modd amserol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd. Mae swyddfa ar gael i gynnal sgyrsiau cyfrinachol ac mae cegin ar wahân i baratoi bwyd. Maent wedi cytuno y gall y staff ddefnyddio ardal staff a thoiledau ar wahân yn yr adeilad a rennir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnig cyfleusterau da i'r plant gael gofal. Mae nifer addas o doiledau i blant a chyfleusterau newid cewynnau i ddiwallu anghenion y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae'r rhain yn sicrhau preifatrwydd ac urddas i'r plant ac yn eu helpu i fod yn annibynnol. Mae'r ardal dan do wedi'i threfnu'n briodol ac yn cynnwys mannau chwarae a dysgu diddorol sy'n hyrwyddo chwilfrydedd, dychymyg a datblygiad y plant. Mae'r plant yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn effeithiol dan do. Mae drysau mawr, llydan yn arwain o'r ardal dan do i ardal awyr agored wedi'i chysgodi er mwyn i'r plant allu dysgu a chwarae ym mhob tywydd pan fyddant yn gofyn am gael gwneud hynny. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu gwybodaeth am y lleoliad i ymwelwyr. Mae gwybodaeth, gan gynnwys manylion staff, bwydlenni, cadw draw oherwydd salwch a gwybodaeth am ddiogelu, yn cael ei harddangos y tu mewn i fynedfa'r lleoliad. Mae'r staff yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar, a chaiff ffotograffau o'r plant eu harddangos er mwyn meithrin ymdeimlad o berthyn ymhlith y plant. Darparodd y staff dystiolaeth fod gwaith y plant wedi cael ei arddangos yn y gorffennol. Gwnaethant sôn am gynlluniau i arddangos mwy o waith y plant yn y dyfodol agos er mwyn dathlu cyflawniadau'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr adnoddau o ansawdd da. Mae'r dodrefn, y cyfarpar a'r teganau dan do yn briodol ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Yn yr ardal dan do, maent yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau yn cael eu cadw ar lefel y plant mewn modd sy'n hygyrch iddynt. Yn yr ardal awyr agored, mae llawer o'r adnoddau yn hygyrch i'r plant a gall y plant ofyn am adnoddau eraill.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu adnoddau ysgogol sy'n briodol ar gyfer oedran a cham datblygiad y plant. Mae hyn yn hyrwyddo sgiliau'r plant drwy chwarae synhwyraidd, dychmygol a chreadigol, a chwarae corfforol. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd risgiau ac yn datblygu eu sgiliau wrth chwarae rôl yn y gornel gartref gan ddefnyddio 'eitemau go iawn' fel potiau, sosbenni a chloriannau. Mae'r adnoddau dychmygol hyn a'r dodrefn pren cadarn yn cynnig cyfleoedd dysgu gwerthfawr. Hefyd, caiff datblygiad personol a chymdeithasol y plant ei annog yn dda gan fod teganau a llyfrau amlddiwylliannol ar gael iddynt. Caiff eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd ei meithrin gan ddefnyddio deunyddiau fel papur, gwellt, cardfwrdd a bocsys wyau wrth ymgymryd â gweithgareddau chwarae dychmygus a gweithgareddau crefft.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn brofiadol ac maent yn rheoli'r lleoliad i safon dda. Mae rhwydwaith cymorth a phrosesau'r cwmni o fudd i'r person â chyfrifoldeb. Maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag AGC ac yn awyddus i ysgogi gwelliant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith a chaiff cofnodion eu cadw. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i gofnodi damweiniau a digwyddiadau a chaiff y rhieni eu hysbysu. Fodd bynnag, ni chaiff gweithdrefnau'r cwmni sy'n nodi y dylai'r arweinwyr lofnodi'r cofnodion wrth eu hadolygu, eu dilyn yn gyson bob amser. Mae'r staff yn cadw cofnodion o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad a chaiff presenoldeb y plant ei fonitro'n effeithiol. Cedwir cofnodion hefyd o'r staff sydd ar y safle, ac mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion hyn yn gyflawn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gofnod o egwyliau'r staff er mwyn dangos yr adegau pan na fyddant yn gofalu am y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau adolygiad ac adroddiad blynyddol o ansawdd y gofal. Maent yn gofyn am safbwyntiau'r staff, y rhieni a'r plant am y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn fyfyriol ac yn nodi meysydd o gryfder a meysydd i'w gwella, drwy ystyried y safbwyntiau hyn a safbwyntiau asiantaethau cymorth. Maent yn sicrhau eu bod yn gwerthuso blaenoriaethau priodol, gan nodi targedau ar gyfer y lleoliad yn y cynllun gwella.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli staff yn effeithiol ac yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn. Maent yn sicrhau bod digon o staff cymwysedig i ofalu am y plant a bod y gymhareb rhwng yr oedolion a'r plant yn cael ei chynnal. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cwblhau cymwysterau gorfodol a bod gan bob aelod o'r staff dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gyfredol. Maent yn myfyrio ar arferion, ac maent yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r staff yn ystod y broses hon. Mae'r staff yn cael cyfleoedd rheolaidd i roi eu barn mewn cyfarfodydd staff, mewn sesiynau arfarnu a goruchwylio un-i-un, neu ar unrhyw adeg y byddant yn teimlo bod angen gwneud hynny. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw o'r farn eu bod yn cael cyfleoedd hyfforddi a datblygu da.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau cadarnhaol iawn ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol, rhaglenni ac asiantaethau cymorth, a rhanddeiliaid eraill. Maent yn sicrhau bod yr holl ohebiaeth â'r rhieni yn werthfawr er mwyn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant. Er enghraifft, mae'r staff yn defnyddio ap i ddogfennu cyflawniadau'r plant ac i rannu gwybodaeth â'r rhieni fel lluniau ac arsylwadau. Caiff gwybodaeth ehangach ei rhannu drwy dudalen ar y we a chylchlythyr. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn gweithio gyda'r rhieni wrth ystyried diddordebau'r plant ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio eu gwaith cynllunio a'r ddarpariaeth er budd y plant. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith er na chafwyd unrhyw gwynion ffurfiol. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y lleoliad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 11 - Meddyginiaeth | Adolygu'r weithdrefn ar gyfer cadw cofnodion mewn perthynas â rhoi meddyginiaeth a sicrhau y caiff unrhyw newidiadau eu hadlewyrchu yn y polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig. |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau y cedwir cofnod o bwy sy'n gofalu am y plant ar bob adeg. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau y caiff gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer adolygu cofnodion eu dilyn. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/03/2024